# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 04-08)

**Dyddiad y : 19 Chwefror 2008**
**Amser y : 8.15am**
**Lleoliad y : Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

**Cylch gwaith:**

Cylch gwaith y Pwyllgor yw:-

1. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, rhaid i'r Pwyllgor ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r drafft ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw "intra vires";

(ii) ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano;

(iii) bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;

(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;

(v) bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;

(vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol;

(vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;

(viii) bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol;

(ix) nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;

(x) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Cynulliad; neu

(xi) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y'i haddaswyd).

2. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;

(ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad;

(iii) ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i'r deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano gael ei basio neu ei wneud ei hun;

(iv) ei fod yn rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol; neu

(v) nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith.

3. Rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 neu 15.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.

4. Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 15.4, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

5. Yn ddarostyngedig i 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried y canlynol hefyd a chyflwyno adroddiadau arnynt:

(i) unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad;

(ii) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol;

(iii) canlyniadau gorchmynion drafft o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau 2006 ar gyfer deddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i ystyriaeth yn y Cynulliad;

(iv) defnydd Gweinidogion Cymru ar bwerau cychwyn; neu

(v) unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

6. Ni chaiff y Pwyllgor ystyried:

(i) unrhyw orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft; na

(ii) unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae'n ofynnol ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig.

**Aelodau:**

Aelodau presennol y Pwyllgor yw: Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd) Eleanor Burnham AC Andrew RT Davies AC Alun Davies AC

Ire

ne James AC

## Cynghorwyr Cyfreithiol:

Gwyn Griffiths Joanest Jackson

**Y Tîm Clercod:**

**Clerc y Pwyllgor:**

Anna Daniel

**Dirprwy Glerc y Pwyllgor :**

Olga Lewis

**Swyddogion Cymorth Gweinyddol :**

Hasera Khan Runa Haque

**Sut i gysylltu â ni:**

Os hoffech ddod i gyfarfod Pwyllgor y Cynulliad, mae angen archebu sedd ymlaen llaw, naill ai drwy ffonio:

**Llinell Archebu'r Cynulliad: 029 2089 8477**

N

eu drwy anfon e-bost i archebu@cymru.gsi.gov.uk Gallwch gysylltu â'r pwyllgor drwy anfon e-bost i: Legislation.comm@wales.gsi.gov.uk

**Neu gallwch siarad ag Anna Daniel, y Clerc ar 029 2089 8144**.

**CYNNWYS**

C

yfarfu'r Pwyllgor ar 19 Chwefror 2008. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Andrew RT Davies AC ac Alun Davies AC. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. Roedd Mike German AC yn dirprwyo ar ran Eleanor Burnham AC. Nododd y Cadeirydd fod y Cynulliad wedi penderfynu i leihau maint y Pwyllgor i bump Aelod a diolchodd i Aelodau'r Cynulliad nad ydynt bellach yn Aelodau'r Pwyllgor - Paul Davies AC, Sandy Mewies AC, Janet Ryder AC a Karen Sinclair AC - am eu cyfraniad at waith y pwyllgor, gan gyfeirio'n benodol at eu gwaith craffu ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007.

Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

## Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

## Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC106 - Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 28 Ionawr 2008. Fe'u gosodwyd ar 30 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 16 Mawrth 2008. SLC107 - Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006(Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 28 Ionawr 2008. Fe'u gosodwyd ar 30 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008. SLC109 - Gorchymyn yr Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 30

Ionawr 2008. Fe’i gosodwyd ar 1 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 29 Chwefror 2008. SLC110 - Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 2 Chwefror 2008. Fe’u gosodwyd ar 5 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 1 Medi 2008. SLC111 - Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 3 Chwefror 2008. Fe’u gosodwyd ar 5 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 29 Chwefror 2008. SLC112 - Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Wrecsam) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 5 Chwefror 2008. Fe’i gosodwyd ar 6 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 1 Mawrth 2008.

**Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

SLC105 - Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 23 Ionawr 2008. Fe’u gosodwyd ar 24 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008. SLC108 - Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 28 Ionawr 2008. Fe’u gosodwyd ar 30 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008. Ceir Adroddiadau’r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr Offerynnau Statudol sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiadau 1-2 i’r Adroddiad hwn. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai’r pwyllgor graffu ar gynnig ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 o dan Reol Sefydlog 15.6(ii). Awgrymodd y Cadeirydd hefyd y dylid cynnal y gwaith craffu ym mis Mawrth 2008 gan mai’r dyddiad cau ar gyfer ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru yw 29 Ebrill 2008.

### Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### 19 Chwefror 2008

**Atodiad 1**

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### (SLC(3)-04-08)

### SLC105

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig i’r offeryn canlynol.

Teitl: Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch rheolaeth cyrff llywodraethu ar feddiannu a defnyddio mangreoedd ysgol. **Gweithdrefn: Negyddol**

### Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

1. Mae testun Cymraeg rheoliad 10(a) yn cynnwys yr ymadrodd "neu benderfyniad a wneir yn unol â pharagraff 62 neu 63 o Atodlen 8 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992”. Nid oes ymadrodd cyfatebol yn y testun Saesneg. Felly, mae’r rheoliad yn anghyson ynghylch a yw trefniadau a wneir yn unol â’r paragraffau hyn yn dal i fod yn berthnasol, a dylid ei gywiro cyn gynted â phosibl. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)] 2. Mewn sawl lle yn y Rheoliadau, mae’r testun Saesneg yn cynnwys yr ymadrodd "must have regard to the desirability of the premises being made available for community use”. Yr ymadrodd a ddefnyddir yn y testun Cymraeg yw "roi sylw i ba mor ddymunol fyddai trefnu bod y fangre ar gael at ddefnydd cymunedol”. Mae’r pwyslais yn wahanol, gan fod y testun Saesneg yn gofyn bod yn rhaid rhoi sylw i’r egwyddor y byddai’r trefniant yn ddymunol, tra bo’r Gymraeg yn gofyn bod yn rhaid rhoi sylw i ba mor ddymunol fyddai’r trefniant, h.y. i ba raddau y byddai’n ddymunol. Gan ei bod yn angenrheidiol rhoi sylw i’r ffactor hwn, mae’n bwysig bod yn glir ac yn gyson yn ddwy iaith. [Rheol Sefydlog 15.2(vi a vii)]

### Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### 19 Chwefror 2008

Ymateb Llywodraeth y Cynulliad: Mynegodd y Llywodraeth ei bod yn derbyn pwynt 1 uchod, ac mae deddfwriaeth gywiro eisoes wedi cael ei drafftio. Ni dderbynnir yr ail bwynt, a darparwyd yr esboniad canlynol - "Nid yw’n hawdd cyfleu’r ymadrodd Saesneg "having regard to the desirability of” air am air yn Gymraeg gan y byddai’r defnydd o’r geiriau Cymraeg "dymunoldeb” neu "dymunolrwydd” am y gair Saesneg 'desirability’ yn bosibl ond nid yn idiomatig. Ein nod yw llunio testun sy’n parchu idiomau’r ddwy iaith. Diffiniad y "New Shorter Oxford English Dictionary" o 'desirability’ yw 'the quality of being desirable’. Fel y nodwyd gallai’r Gymraeg fel y mae gael ei chyfieithu i’r Saesneg fel 'having regard to how desirable it would be.’ Byddai hyn yn cynnwys y cwestiwn 'a yw’n meddu ar y nodwedd o fod yn ddymunol neu o beidio â bod yn ddymunol?’ yn ogystal â graddau o 'fod yn ddymunol’ rhwng y ddau begwn. Rydym yn fodlon felly fod yr ymadrodd Cymraeg hwn yn gyfystyr â’r ymadrodd Saesneg. Ychwanegwn hefyd fod yr ymadrodd hwn wedi cael ei

ddefnyddio mewn is-ddeddfwriaeth yn y gorffennol heb sylwadau." **Atodiad 2**

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-04-08)

**SLC108**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

**Teitl: Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth)(Cymru) 2008**

Mae'r rheoliadau hyn yn gosod allan y mathau o wybodaeth y mae'n ofynnol eu darparu i rieni a darpar rieni gan yr awdurdodau lleol o dan eu dyletswyddau yn rhan 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006. **Gweithdrefn: Negyddol**

### Nodwyd y pwyntiau canlynol i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.2.

Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail a osodwyd allan yn Rheol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol), a Rheol Sefydlog15.2(vii) (anghysondebau rhwng ystyron y testun Cymraeg a'r testun Saesneg):

Mae Rheoliad 4(1)(h) yn gofyn a yw'r ddarpariaeth gofal plant wedi'i chofrestru gan 'Gynulliad Cenedlaethol Cymru'. Nid yw'r cyfeiriad hwn yn ystyried y sefyllfa sy'n bodoli ar ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006. I fod yn gywir, dylid cyfeirio at Weinidogion Cymru yn cyflawni'r swyddogaeth hon [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

Mae Rheoliad 6 yn cyfeirio at yr awdurdod lleol yn unigol yn y fersiwn Saesneg, ond yn y fersiwn Cymraeg ceir cyfeiriad at awdurdodau lleol hy defnyddir y lluosog [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Ymddengys fod anghysondeb yn Rheoliad 7 rhwng y fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg, a cheir geiriau ychwanegol yn y Saesneg nad ydynt i'w cael yn y fersiwn Cymraeg. Ni cheir yn y fersiwn Cymraeg eiriau sy'n cyfateb i '....on any other services or facilities or any publications....'. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Mae Rheoliad 9 yn y fersiwn Cymraeg yn cyfeirio at 'adnoddau' (resources) tra bod y Saesneg yn cyfeirio at 'sources' (ffynonellau). Mae'r cyd-destun yn awgrymu mai'r testun Saesneg sydd yn gywir. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

Mae'r Llywodraeth wedi mynegi bod y pwyntiau i'w hadrodd sydd wedi'u nodi wedi cael eu derbyn a'i bod yn bwriadu'u cywiro pan fydd y Rheoliadau'n cael eu diwygio y tro nesaf.

**Dr Dai Lloyd AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**19 Chwefror 2008**